**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**Cynhelir y cyfarfod o bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 20 Ionawr 2022 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| P K Jones | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

| Swyddogion | |
|---|---|
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Alan Ferris | Uwch-beiriannydd |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Mark Thomas | Arweinydd Grŵp Isadeiledd Trafnidiaeth |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd A S Lewis - Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau
Y Cynghorydd M Thomas – Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd

---

## 30 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 31 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gofnod rhif 26 a nododd fod cyfarfod wedi'i gynnal i drafod yr ymgynghoriad.

## 32 Newid yn yr hinsawdd.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad 'er gwybodaeth'. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at adroddiad y Cabinet a gymeradwywyd yn ddiweddar ar y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Natur (18 Tachwedd 2021) a oedd yn ystyried y

datganiad diweddar ynghylch Argyfwng Natur ar 4 Tachwedd 2021. Er mwyn helpu i flaengynllunio, mae hefyd yn hysbysu’r pwyllgor o statws presennol pob maes polisi sydd wedi'i gynnwys yn y strwythur llywodraethu.

Nododd yr aelodau gynnydd mewn perthynas â'r canlynol: Y diweddaraf am Lywodraethu; Y diweddaraf am Strategaeth a Pholisi; Cynllun Bioamrywiaeth/Adran 6/Cynllun Gweithredu Adfer Natur; Datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy; Strategaeth Rheoli Coed; Adeiladau Ysgol Newydd; Caffael; Tai; Polisi Strategaeth Gwastraff 2022-25; Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd; Cynllun Datblygu Lleol; Cynllun Ynni a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau fod y Strategaeth yn 'ddogfen fyw' gydag elfennau pellach yn cael eu datblygu. Cyfeiriodd at y gwaith cyffredinol gyda sefydliadau eraill a chanmolodd swyddogion am eu gwaith rhagorol wrth gyflawni'r strategaeth.

Cyfeiriodd Rheolwr y Prosiect at y gwaith cydweithredol a oedd yn cynnwys holl Awdurdodau Cymru a mewnbwn Abertawe yng nghynllun diweddar COP Cymru.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lleoedd at faint o waith a geir ym mhob un o'r meysydd polisi a nodir uchod a'r cynnydd parhaus ynddynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am eu gwaith parhaus wrth gyflawni'r strategaeth ac awgrymodd y gallai fod yn rhan o'r cynllun gwaith ar gyfer y PDP yn y flwyddyn ddinesig sydd ar ddod.

## 33 Mesurau Rheoli Cyflymder mewn Ardaloedd Preswyl i gynnwys terfynau cyflymder 20mya.

Cyflwynodd yr Uwch-beiriannydd adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg byr ar y cefndir a'r materion sy'n gysylltiedig â chyflwyno mesurau rheoli cyflymder i gefnogi terfyn cyflymder o 20mya mewn ardaloedd preswyl.

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd drosolwg o'r heriau sy'n gysylltiedig â rhoi’r mesurau ar waith a oedd yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun; goblygiadau ariannol ac ymgynghoriad.

Cyfeiriodd yr Uwch-beiriannydd at yr wyth cynllun peilot yng Nghymru a dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn asesu'r data sy'n deillio o bob cynllun peilot. Dywedodd mai prin oedd yr wybodaeth a gafwyd yn lleol ynglŷn â chydymffurfiaeth a hepgoriadau o ganlyniad i ardaloedd rheoli cyflymder.

Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Chludiant fod llawer o heriau gwrthdrawiadol yn gysylltiedig â'r cynllun a oedd yn gofyn am ystyriaeth ofalus cyn ei roi ar waith.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion am eu hadroddiad addysgiadol ac awgrymodd y gallai'r mater fod yn rhan o gynllun gwaith y PDP yn y flwyddyn ddinesig sydd ar ddod.

**34 Cynllun Gwaith 2020/2022**

Cyflwynodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd cynllun gwaith 2020-2022.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.18pm

**Cadeirydd**